Y cylchlythyr chwarterol rhad ac am ddim i denantiaid Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Rhoi gwybodaeth i chi.
Yn barod **amdani**.

Gwanwyn 2011

TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING
Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

LOOK

TU MEWN...

Sut ddylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag?

Gwobrwyo Mewnbwn Tenantiaid

Ollie angen eich cymorth!

Cyngor ar arian

Parth Plant

a llawer mwy

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys, SY16 1AL
ffôn: 0300 111 3030 ffacs: 0300 111 3031 sms: 07797 885035 e: info@mid-walesha.co.uk

Sut ddylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag?

Fel y soniwyd yng Nghylchlythyr y Gaeaf, lansiodd y Gymdeithas bapur ymgynghori ar sut y dylem ddyrannu ein cartrefi gwag a gwahodd tenantiaid, ymgeiswyr a chynrycholwyr etholedig lleol i ymateb.

Ysgogodd y cynigion lawer o ddiddordeb, ac mewn ymateb i nifer o geisiadau, estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau i 25 Chwefror 2011.

Derbynodd y Gymdeithas dros 65 ymateb ac mae wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau. Bydd yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ei gwefan yn ystod mis Mai.

Dengys adolygiad dechreuol o'r ymatebion fod llawer yn cefnogi egwyddor rhoi blaenoriaeth i bobl leol, rhai mewn cyflogaeth a rhai sy'n cyfrannu mewn ffyrdd eraill i'w cymunedau. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hefyd wedi tynnu sylw at rai materion yn ymwneud â sut y dylid sicrhau y caiff pawb ei drin yn deg.

Mater arall o gonsyrn a fynegwyd oedd os yw defnyddio system trefn dyddiad i "dorri'r ddadl" yn rhy syml a medrem fod angen peth pwysau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sydd mewn angen difrifol am gartref. Mae'n amlwg fod angen cydbwysedd yma rhwng gwneud y system yn ddealladwy a helpu'r rhai sydd mewn mwyaf o angen.

Edrychwch ar ein gwefan yn ystod mis Mai am adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad, a diolch yn fawr i'r rhai a anfonodd eu sylwadau.

Yn y rhifyn yma ...

Sut ddylem ni ddyrannu ein cartrefi gwag?	2
Gwobrwyo Mewnbwn Tenantiaid	3
Ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai?	4-5
Y Gystadleuaeth Ffotograffiaeth	5
Diwygio Budd-dal Tai	6-7
Troseddwyr Ifanc	7
Ollie angen eich cymorth!	8-9
Dydd Gŵyl Dewi yn y Swyddfa!	9
Newyddion Cyngor Ar Bopeth	10-11
Cyngor ar Arian	12
Cynllun pentref cyntaf wedi cwblhau	13
Cynlluniau i ddatblygu mwy o dai	13
Tacluso stad Llys Afallen, Y Drernewydd	14
Parth Plant	15
Cyfraniad elusennol	16
Dirprwy Weinidog yn cyflwyno tir	16
Beth yw Taliadau Gwasanaeth?	17
Gêm "Gwario"	18
Gwyngalchu Arian	18
Rhifau ffôn defnyddiol	19-20

Gwobrwyo Mewnbwn Tenantiaid

Rydym wedi lansio cynllun gwobrwyo newydd cyffrous!

O hyn ymlaen pan roddwch eich amser i'r Gymdeithas drwy gymryd ran mewn un o'n llu o weithgareddau, cewch sticeri ar gyfer eich cerdyn gwobrwyo. Pan fyddwch wedi casglu 10 sticer, bydd eich cerdyn gwobrwyo yn llawn a chewch daleb siopa Tesco o £10.

Mae llawer o ffyrdd i gymryd rhan yma yn y Gymdeithas a nawr mae hyd yn oed fwy o reswm i wneud hynny. Gwerthfawrogwn gyfraniadau ein tenantiaid ac rydym eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i ddweud DIOLCH YN FAWR. Gyda'ch help chi, medrwn wella'r gwasanaethau a gynigiwn.

Ar hyn o bryd, medrwch ennill sticeri am:

- Mynychu gweithgorau
- Cyfarfodydd Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr
- Paneli craffu
- Arsylwi cyfarfodydd bwrdd
- Cyfrannu erthyglau i'r cylchlythyr
- Unrhyw hyfforddiant a fynychwch gyda ni
- Cymryd rhan mewn sesiynau glanhau stad a drefnir

Gobeithiwn yn y dyfodol agos ymestyn y system wobrwyo i gynnwys llenwi arolygon. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi drwy'r cylchlythyr.

Yn y cyfamser, os hoffech fynd ati i ennill sticeri, cysylltwch â Hannah Jones, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, ar 0300 111 3030 neu anfon e-bost ati yn hjones@mid-walesha.co.uk.

Ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai?

Ydych chi'n poeni am y toriadau sydd ar y gweill gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig?

Dan y Mesur Diwygio Lles, bwriad y Llywodraeth o fis Ebrill 2013 ymlaen yw gostwng hawl i fudd-dal tai tenantiaid o oedran gwaith sy'n hawlio budd-dal tai ac yn byw mewn cartref rhy fawr i'w hanghenion.

Enghraifft o hyn yw lle mae cwpl yn byw mewn cartref 2 ystafell wely ac mai felly dim ond 1 ystafell wely sydd ei hangen.

Nid yw'r manylion terfynol ar gael hyd yma. Fodd bynnag, hoffem ni yn y Gymdeithas fod o flaen y gêm. Rydym yn sicr fod llawer o'n tenantiaid a all fod yn byw mewn cartref mwy na maent ei angen am ba bynnag reswm ac a hoffai un ai gymryd lletywr neu rannu tenantiaieth gan rannu cyfleusterau.

Os ydych chi o oedran gwaith, yn hawlio budd-dal tai a heb fod yn defnyddio un neu fwy o'r ystafelloedd gwely yn eich cartref, llenwch y ffurflen islaw os gwelwch yn dda. Llenwch y ffurflen hyd yn oed os nad ydych yn derbyn budd-dal tai ac yr hoffech gymryd lletywr. Dychwelwch hi yn yr amlen flaendaledig amgaeedig erbyn 31 Mai 2011 os gwelwch yn dda.

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

Rhif Ffôn _____

E-bost: _____

Ydych chi'n derbyn budd-dal tai – dim, rhan neu llawn?	Dim / Rhan / Llawn
Faint o ystafelloedd gwely sydd gennych?	1 / 2 / 3 / 4
Faint o oedolion sy'n byw yn eich cartref?	_____
Faint o blant dibynnol sy'n byw gyda chi?	_____
Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cymryd lletywr?	Byddai / Na fyddai
Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn symud i gartref llai?	Byddai / Na fyddai

Diolch am adael i ni gael yr wybodaeth uchod. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw ein canfyddiadau a sut y gallem eich helpu.

Dychwelwch yn yr amlen flaen-daledig amgaeedig erbyn 31 Mai 2011 os gwelwch yn dda.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Yn rhifyn Gaeaf 2010 o 'LOOK' gwahoddwyd tenantiaid i anfon eu ffotograffau o adar ar fyrddau neu fwydwyr adar. Er mai ychydig iawn o geisiadau a dderbyniwyd, byddwn yn cyhoeddi enw'r enillydd yng nghylchlythyr Gaeaf 2011 ac yn defnyddio'r llun buddugol ar y clawr blaen.

Diwygio Budd-dal Tai

Mae'n sicr y byddwch wedi darllen yn y wasg fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi nifer o gynigion am ad-drefnu'r system budd-dal tai.

Ychydig o fanylion sydd ar gael ar hyn o bryd ar y newidiadau ond cyhoeddwyd y prif negeseuon. Gweithredir y cynigion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cychwyn ym mis Ebrill 2011.

Un o'r cynigion a weithredir ym mis Ebrill 2011 yw newid y swm a godir os oes person heb fod yn ddibynnol yn byw gyda chi a'ch bod yn derbyn budd-dal tai.

Pwy gaiff ei gyfrif fel person heb fod yn ddibynnol?

Fel arfer person heb fod yn ddibynnol yw rhywun sy'n byw gyda pherson sy'n hawlio budd-dal tai ac nad ydynt yn:

1) bartner y sawl sy'n hawlio
2) plentyn neu berson ifanc sy'n ddibynnol ar y sawl sy'n hawlio
3) tenant ar y cyd

Maent fel arfer yn blant mewn oed sy'n byw gyda'r sawl sy'n hawlio budd-dal tai. Gallant hefyd fod yn berthnasau eraill sy'n byw gyda'r sawl sy'n hawlio ond nad ydynt yn rhan o delerau'r cytundeb tenantiaeth.

Beth os oes gennyf person heb fod yn ddibynnol yn byw gyda fi?

Os oes person heb fod yn ddibynnol yn byw gyda chi, gall hyn effeithio ar eich hawl i fudd-dal tai a thynnir swm o'ch hawliad.

Pam eich bod yn dweud hyn wrthyf?

Yr arwyddion ar hyn o bryd yw y bydd y swm a godir ar gyfer pobl heb fod yn ddibynnol yn cynyddu'n sylweddol o fis Ebrill 2011.

Ni wyddom ar hyn o o bryd pa symiiau a gaiff eu codi ar gyfer pobl heb fod yn ddibynnol sy'n byw gyda chi ond byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sydd modd neu efallai y bydd Adran Budd-dal Tai y Cyngor yn cysylltu â chi.

Beth ddylwn ei wneud nesaf?

Os ydych yn derbyn budd-dal tai ond y gostyngir hyn oherwydd fod person heb fod yn ddibynnol yn byw gyda chi yn awr neu'n gwneud hynny yn y dyfodol, cewch eich hysbysu cyn gynted ag y byddwn yn gwybod beth yw'r swm newydd. Unwaith y cawsoch eich hysbysu am y swm newydd yma, cysylltwch yn syth â'ch Cydlynydd Tai i drafod gan mai chi fel tenant sy'n gyfrifol am unrhyw rent sy'n ddyledus.

Cysylltwch â'ch Cydlynydd Tai ar 0300 111 3030.

Byddwn yn gadael i chi wybod am fanylion y cynigion eraill i newid budd-dal tai fel y deuant yn hysbys.

Troseddwyr Ifanc

Hoffem gael barn ein preswylwyr am hyrwyddo rhyw fath o gynllun 'Talu'n Ôl Cymunedol' ar gyfer troseddwyr ifanc sy'n gadael dalfa neu sefydliad tebyg.

Byddai unrhyw waith gan droseddwyr ifanc dan y cynllun er budd y gymuned a medrai tasgau o'r fath gynnwys:

- Casglu sbwriel
- Tocio perthi sydd wedi gordyfu
- Clirio isdyfiant
- Dileu graffiti
- Neu unrhyw beth yn ymwneud â'r gymuned.

Byddem, wrth gwrs, yn cadw golwg agos ar brosiect o'r math pe byddem yn symud ymlaen gydag ef.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn ffoniwch ni ar 0300 111 3030, anfon neges testun atom i 07797 885035 neu anfon e-bost atom yn info@mid-walesha.co.uk

Ollie angen eich cymorth!

Mae gwirfoddolwyr yn rhan bwysig a gwerthfawr o gymunedau lleol. Mae Ollie yn byw yn Llanidloes a dechreuodd wneud gwaith gwirfoddol fel cydlynydd gweinyddol gydag Ymatebwyr Cyntaf Llanidloes ym mis Rhagfyr.

Mae'n cwblhau rhan olaf gradd Meistr ac yn defnyddio ei gwybodaeth i helpu'r Ymatebwyr Cyntaf i godi eu proffil ac ymwybyddiaeth yn yr ardal drwy eu defnyddio fel astudiaeth achos ar gyfer ei thraethawd hir. Daeth Ollie i'n swyddfa gyda thaflenni Ymatebwyr Cyntaf Llanidloes sydd ar gael yn ein hystafell tenantiaid. Pan oedd Ollie yn y swyddfa clywsom dipyn am y gwasanaeth lleol gwerthfawr y mae hi a'i thîm yn ei ddarparu.

Sut wnaethoch chi ddechrau cymryd rhan?

Roeddwn yn gwybod cryn dipyn am Ymatebwyr Cyntaf am fy mod yn adnabod rhai o'r gwirfoddolwyr, ond pan oeddwn mewn sefyllfa o fod angen eu help, roedden nhw mor wych fel i mi ganfod sut y medrwn cymryd rhan.

Pa mor bwysig fyddech chi'n ddweud yw'r gwasanaeth?

Mae byw mewn ardal wledig yn dangos pa mor fregus yw ein cymunedau mewn sefyllfaoedd argyfwng. Os yw ambiwlans yn mynd i gymryd tipyn o amser, gall Ymatebwr Cyntaf gwahaniaeth hollbwysig.

Faint o wirfoddolwyr ydych chi angen?

Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio mewn timau o ddau fely rydym angen 366 awr wirfoddoli yr wythnos – felly gorau po fwyaf o wirfoddolwyr! Rydym hefyd angen gwirfoddolwyr a all helpu i godi arian, recriwtio ac yn gyffredinol gadw'r grŵp ar flaen ei draed!

Ydych chi'n cynnig hyfforddiant?

Ydym – bydd rhwydwaith o staff cefnogaeth Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yn hyfforddi gwirfoddolwyr mewn sgiliau achub bywyd a sut i ddefnyddio'r offer sydd ar gael i Ymatebwyr Cyntaf. Mae hyfforddiant anffurfiol parhaus hefyd.

Pa fath o bobl ydych chi'n edrych amdanynt?

Dylent fod dros 18, mewn iechyd rhesymol dda a bod â thrwydded yrru lân lawn ond ar wahân i

Ollie Davies (canol) yn rhannu pamffledu Ymatebwyr Cyntaf Llanidloes gyda Rachel Morgan (ar y dde) Swyddog Tai a Hannah Jones (ar y chwith) Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid.

hynny, y cyfan sydd angen yw mwynhau her, bod yn dda dan bwysau, yn falch o'r gymuned ac eisiau rhoi rhywbeth yn ôl. Yn sylfaenol, os oes gennych amser dros ben ac yn barod i ddysgu sgiliau bywyd, medrai hyn fod yn gyfle perffaith i chi.

Pa mor bwysig yw gwirfoddoli i chi? A yw wedi'ch helpu ar lefel bersonol?

Rwyf yn mwynhau ymwneud gyda chriw cyfeillgar o bobl sy'n amlwg eisiau helpu'r gymuned. Mae gwirfoddoli wedi fy ngalluogi i roi rhywbeth yn ôl, ac rwy'n credu fod honno'n wers bwysig i fy mhlant ei dysgu hefyd.

Sut mae dod i gysylltiad?

Medrwch gael mwy o wybodaeth drwy anfon neges e-bost at llanidloesfr@mail.com

Dydd Gŵyl Dewi yn y Swyddfa!

Daeth Amara fach i'n swyddfa ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda'i mam a'i brawd mawr. Fedren ni ddim peidio cymryd llun ohoni yn ei gwisg wych. Roedd yn arbennig o hoff o'r cennin Pedr!

Newyddion Cyngor Ar Bopeth

Caiff gwasanaeth cyngor cyffredinol newydd ei lansio yn Llandrindod y mis yma. Bydd cynghorydd cyffredinol ar gael ar gyfer apwyntiadau rhwng 10.00am a 4.00pm bob dydd Mercher.

Cynhelir apwyntiadau yn:
Gofal a Chymorth
Gwynfa
Rhodfa Lant
Llandrindod
LD1 5LA

Mae'r gwasanaeth ar gael i gleientiaid a gyfeiriwyd gan Gofal a Chymorth, asiantaethau partner eraill a thrwy gyfeirio eu hunain. Bydd y pwyslais ar faterion yn gysylltiedig â'r dirwasgiad fel dyled, defnydd budd-daliadau a chyflogaeth.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i ddatblygu gwasanaeth mewn rhan arall o ganol Powys yn y dyfodol gweddol agos.

I gael mwy o wybodaeth ac apwyntiadau ffoniwch: 01686 617661.

Mae Cyngor Ar Bopeth Powys yn elusen gofrestredig annibynnol sy'n cynnig cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol, annibynnol a di-duedd ar ystod eang o bynciau.

Nod y gwasanaeth:

- **Rhoi'r cyngor y mae pobl ei angen ar gyfer y problemau sy'n eu hwynebu.**
- **Gwella'r polisïau ac arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.**

Mae cyngor a help ar gael gan gynghorwyr wedi'u hyfforddi ar faterion dyled, budd-daliadau, cyflogaeth, tai, treth, teulu a materion personol, llythrennedd ariannol, problemau cyfreithiol, mewnfudo, dinasyddiaeth a hawliau defnyddwyr.

Medrwch gysylltu â CAB drwy unrhyw un o'r dilynol:

Llinell Cyngor Ffôn

Gwasanaeth i Bowys gyfan yn cynnig cyngor cyffredinol
Ffôn: 0845 6018421 Mawrth a Mercher
10.00am i 2.30pm

Llinell Gyngor Cymru

0844 4772020 Llun i Gwener
10.00am i 4.00pm

Canolfannau Cynghori

Y Drenewydd: Tŷ Ladywell, SY16 1QS.
Dyddiau Llun 10-12 canol-dydd dim angen apwyntiad.
Dyddiau Llun-Gwener apwyntiadau drwy drefniant.
Ffôn: 01686 6243990, Llun a Iau.

Machynlleth: Canolfain Owain Glyndŵr, SY20 8EE.
Mercher 10-12 canol-dydd dim angen apwyntiad.
Apwyntiadau drwy drefniant.

Ystradgynlais: The Welfare Hall, Neuadd Les, Heol Aberhonddu, SA9 1JJ.
Mercher 10-12 canol-dydd dim angen apwyntiad.
Llun-Gwener apwyntiad drwy drefniant.
Ffôn: 01639 844730, Mercher a Iau.

Aberhonddu: 11 Stryd Morgannwg, LD3 7DW.
Apwyntiadau Llun-Gwener drwy drefniant
Ffôn: 0845 6018421

Gwefan Cyngor Ar Bopeth Powys:
www.powyscitizensadvice.org.uk

Erthygl gan Cyngor Ar Bopeth Powys

Cyngor ar Arian

Cynhaliodd y Gymdeithas adolygiad trwyadl o gyngor ar arian yn ystod 2010. Mae Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu llawer o bobl, yn arbennig mewn cyfnod o doriadau i wasanaethau llywodraeth.

Pan mae arian yn dyn a'n bod yn mynd i ddyled mae'n bwysig cael cyngor da ar arian. Weithiau pan fo gennym anawsterau ariannol teimlwn mai'r ateb yw benthyca mwy. Fodd bynnag, efallai nad hyn yw'r peth gorau i'w wneud a'r cam cyntaf ddylai fod i geisio cyngor ar arian.

Mae nifer o ddarparwyr gwahanol ar gyfer cyngor ar arian a dyledion i breswylwyr ym mhob rhan o'r Canolbarth. Maent yn cynnwys:

(1) Undeb Credyd Robert Owen, Y Drenewydd (01686 623741 neu www.romcul.co.uk)

(2) Undeb Credyd Credcer, Aberteifi (01239 621408 neu admin@credcercreditunion.co.uk)

(3) Undeb Credyd Brycheiniog a'r Cylch, Aberhonddu (01874 620104 a info@breconanddistrictcreditunion.co.uk)

(4) CAB Powys – nifer o weithwyr cyngor dyled a Lladmerydd Tanwydd i helpu 'siopa o amgylch' am gynlluniau ynni cartref (0845 624390).

(5) Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr (CCCS) – elusen genedlaethol yn rhoi cyngor am ddim drwy wasanaeth Rhadffon cenedlaethol (0800 138 1111) a dull Datrys Dyledion ar-lein (www.cccs.co.uk).

(6) CAB – gwefan hunan-gymorth (www.adviceguide.org.uk) yn cynnwys cyngor ar arian

(7) Moneymadeclear – cyngor Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gael drwy linell gymorth (0300 500 5000) a gwefan (www.moneymadeclear.fsa.gov.uk)

Nid yw'r Gymdeithas yn argymhell unrhyw un o'r uchod ond mae'r sefydliadau hyn un ai'n elusennau cydnabyddedig neu'n sefydliadau dim-am-elw sy'n arbenigo mewn rhoi cyngor ar ddyledion.

Cwblhau Cynllun Pentref Cyntaf yng Ngheredigion

Mae'r Gymdeithas wedi cwblhau ei chynllun pentref cyntaf ym Mhonterwyd, a throsglwyddwyd y cartrefi ar 28 Chwefror 2011.

Mae cynllun Maes-yr-Awel yn cynnwys saith o dai 3 ystafell wely ar gyfer teuluoedd a dau fyngalo 2 ystafell wely ar gyfer aelodau hŷn o'r gymuned.

Gofynnodd y gymuned i'r Gymdeithas ddarparu tai yn 2004, ac ariannodd ymchwil i anghenion tai y gymuned i ddangos yr angen am y cynllun, rôl a wneir yn awr gan Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion. Mae'r Gymdeithas bellach yn rhan-ariannu'r swydd gyda Chymdeithas Tai Cantref a Chyngor Sir Ceredigion.

Mae'n anffodus fod y cynllun wedi cymryd mor hir i ddod i ffrwyth, ac mae'n enghraifft o ba mor anodd y gall cynlluniau gwledig bach fod. Yn neilltuol, bu'n rhaid i'r Gymdeithas wynebu oedi mawr a heriau sylweddol wrth ddarparu carthffosiaeth digonol i'r cynllun.

Defnyddiodd y Gymdeithas ei chynllun gosodiadau pentref i sicrhau mai ymgeiswyr lleol gafodd yr holl anheddau. Mae Heather Lewis (a welir yn y llun gyda'i theulu) wedi byw yn y pentref bron ar hyd ei hoes.

Mae'r Gymdeithas wedi cyhoeddi cynlluniau i ddatblygu mwy o dai mewn 11 cymuned yn yr ardal dros y tair blynedd nesaf.

Yn ystod 2011-2012 bydd y Gymdeithas yn gwario bron £9.5m yn datblygu dros 120 o gartrefi yn cynnwys cynlluniau yng Nghemaes, yr Ystog, y Drenewydd, Pontnewydd ar Wysg, Rhydypennau, Llanfair ym Muallt a'r Trallwng.

Mae'r cynlluniau a gaiff eu cwblhau yn y flwyddyn yn cynnwys saith cartref yn Nolfach (Ebrill), chwech yng Nghemaes (Hydref) a phump yn yr Ystog (Hydref).

Mae prosiectau tymor hwy yn cynnwys cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer Bochrwyd, Llanandras a'r Borth.

Glanhau stad Llys Afallen, Y Drenewydd

Cyn y tacluso!

Penderfynodd nifer o breswylwyr Llys Afallan fod darn o dir ger eu tai yn hyll ac y medrai fod yn beryglus oherwydd sbwriel oedd wedi ei adael yn y perthi. Fe wnaethant gysylltu â thîm Cadw Cymru'n Daclus a drefnodd ddiwrnod i'w helpu i dacluso a darparu offer ar gyfer y digwyddiad.

Yn y diwedd casglwyd 18 bag o sbwriel, ynghyd â llond 3-4 yn fwy o fagiau o rwbel ac eitemau mwy na fedrid eu rhoi mewn bagiau. Roedd yn syndod faint o sbwriel oedd wedi ei daflu ar y stad. Ni lwyddwyd i gael gafael arno i gyd, gan fod peth wedi'i guddio gan berthi ac yn anodd ei gyrraedd.

Rhai o'r preswylwyr, mawr a bach, a fu'n helpu

Cytunwyd mai'r cam nesaf fyddai tocio rhai o'r perthi, fel y medrir trefnu sesiwn dacluso arall. Yn ystod mis Mawrth treuliodd staff y Gymdeithas a phreswylwyr ddiwrnod yn tocio'r perthi a threfnwyd sgip i gael gwared â'r holl wastraff.

Diolch yn fawr i'r holl breswylwyr a helpodd i drefnu'r tacluso ac a fu'n gweithio'n galed iawn i sicrhau gwelliant mor fawr i'w stad.

Parth Plant

C	H	R	C	C	S	H	E	E	P
A	O	I	A	O	S	P	U	M	A
T	R	F	D	B	W	D	O	G	C
I	S	D	H	O	B	L	I	G	O
N	E	M	A	Q	N	I	C	O	C
D	B	O	M	P	B	K	T	A	K
O	A	U	S	W	I	A	E	T	E
D	J	S	T	G	Y	G	T	Y	R
O	A	E	E	U	E	T	R	B	E
E	A	V	R	K	B	E	A	R	L

Chwilair

Ceisiwch ddod o hyd i'r geiriau Saesneg yma

RABBIT
DONKEY
DOG
CAT
HAMSTER
COCKEREL
COW
HORSE
PIG
SHEEP
GOAT
BEAR
BAT
PUMA

Helpwch Sgip y ci i ddod o hyd i'w asgwrn!

Jocs

1) Beth ydych chi'n galw dyn gyda rhaw ar ei ben?

2) Beth ydych chi'n galw dynes rhwng ddau bostyn gôl?

3) Beth ydych chi'n galw dyn gyda throwsus papur?

4) Beth yw'r gair Saesneg am ddinosor dall?

Atebion

1) Doug 2) Annette 3) Russell 4) "Do-you-think-he-saw-us"

Derbyniodd elusen leol gyfraniad annisgwyl ar ôl cymryd rhan yng Ngwobrau Busnes Powys.

Mae Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn (MFCC) yn cefnogi a diogelu teuluoedd sy'n profi cam-drin yn y cartref, ac enillodd y wobr menter gymdeithasol ac elusen yng Ngwobrau Busnes Powys 2011. Noddwyd y wobr gan y Gymdeithas.

Nid oedd felly'n syndod i'r Gymdeithas ddewis MFCC fel ei helusen Nadolig. Cyfrannodd ganran o gost ei chardiau Nadolig corfforaethol a hefyd cyfrannodd y staff elw raffl rhoddion a roddwyd i'r Gymdeithas dros gyfnod y Nadolig.

Yn y llun gwelir Jean O'Neill, Cydlynydd Tai (Tai â Chymorth) y Gymdeithas yn cyflwyno'r sieciau am bron i 3100 i Fleur Frantz-Morgans o MFCC.

Dirprwy Weinidog yn cyflwyno tir ar gyfer cynllun tai fforddiadwy blaengar

Ymwelodd Jocelyn Davies AC, Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, â'r Drenewydd i gyflwyno safle'r Faenor ar 10 Chwefror 2011. Mae'r Gymdeithas wedi arwyddo lês 999 mlynedd ar y safle, sy'n eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Tai teulu sydd ar y datblygiad yn bennaf, ond mae hefyd nifer o fythynnod 1 ystafell wely. Gobeithir y bydd hynny'n annog pobl sy'n byw mewn cartrefi mwy na maent eu hangen i symud i gartref llai, gan ryddhau tai 3 a 4 ystafell wely ar gyfer teuluoedd. Bydd y cynllun hefyd yn darparu tai ar rent canolraddol, lle codir rhent uwch er mwyn crynhoi ernes ar gyfer prynu'r tŷ maes o law. Cyhoeddir manylion y pecyn perchnogaeth cartref cost isel blaengar hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bydd y cynllun £6.2m yn darparu 50 o gartrefi fforddiadwy a gaiff eu rhan-ariannu gan £3.176m o ail ddogn y Gronfa Budsoddi Cyfalaf Strategol a chyfalaf o £560,000 gan Gyngor Sir Powys.

Beth yw Taliadau Gwasanaeth?

Dyma'r costau a gaiff y Gymdeithas wrth ddarparu a chynnal gwasanaethau a budd-daliadau tu hwnt i fudd mwynhau byw yn eich carrtref euich hun. Maent fel arfer yn wasanaethau cymunol ac yn cynnwys taliadau megis:

- Gwres, Golau a Phŵer
- Diogelwch, Larymau a Lifftiau
- Tir a Gerddi
- Glanhau a Gwastraff
- Dibrisiant
- Tâl Gweinyddu

NEWYDDION!

CWBLHAWYD YR ADOLYGIAD GWELLIANT PARHAUS O DALIADAU GWASANAETH!

Fel canlyniad i'r adolygiad:

Rydym yn parhau i godi tâl ar sail amrywiol – beth mae hyn yn ei olygu?

- Byddwn yn defnyddio gwir gostau anfoneb o'r flwyddyn flaenorol i drefnu cyllideb ar gyfer Taliadau Gwasanaeth o 01/04/2011 – 31/03/2012. Dangosir hyn fel SERV ar eich Llythyrau Rhent.
- Unwaith y bydd y flwyddyn drosodd, cymharwn y gyllideb gyda gwir costau ac un ai'n ad-dalu neu adhawlio'r gwahaniaeth yn nhaliadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol.
- Dangosir yr addasiad yma fel SERVSD ar eich llythyrau hysbysiad rhent.

Mae proses apeliadau ddiwygiedig yn awr ar waith os na chytunwch gyda'r tâl.

Caiff Safonau Gwasanaeth eu hadolygu a'u pennu mewn cysylltiad gyda Thenantiaid.

MAE AMSER YN DAL I FOD I GYMRYD RHAN I SICRHAU Y CAIFF EICH BARN EI CHLYWED YNG NGHYSWLLT TALIADAU GWASANAETH:

Ffurfiwyd Grŵp Ymgynghori Taliadau Gwasanaeth newydd yn dilyn yr adolygiad. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr. Rydym yn dal i edrych am aelodau felly cysylltwch â ni os hoffech ymuno â'r Grŵp.

Rydym wedi dechrau ar y broses o adolygu safonau gwasanaeth i'w gosod gan y stad mewn cytundeb gyda thenantiaid.



Sut fyddech chi'n gwario ein harian?
Beth ddylai'r Gymdeithas roi blaenoriaeth iddo?

Ewch i'n gwefan neu deipio'r cyfeiriad rhyngrwyd i fynd yn syth at 'Stryd Gwario'!

www.mid-walesha.co.uk/cymraeg/spend-it

Gwyngalchu Arian

Cymeradwyodd y Llywodraeth y rheoliadau Gwyngalchu Arian yn 2007. Mae'r rheoliadau'n cynnwys nifer o wahanol faterion a chyflwynwyd rhai'n ymwneud â gwerthu anheddau a rheoli anheddau ym mis Ionawr 2010.

Nod y rheoliadau yw atal pobl a gafodd arian o ffynonellau anghyfreithlon rhag medru ei ddefnyddio i brynu neu rentu eiddo. Os defnyddir arian a gafwyd o weithgaredd troseddol i brynu neu rentu eiddo yn gyfreithol, yna mae'r arian 'budr' yma wedi ei 'wyngalchu'.

Mae'r Gymdeithas yn cymryd o ddifrif ei chyfrifoldeb i atal gwyngalchu arian ac ym mis Ionawr cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli bolisi newydd ar wyngalchu arian. Mae'r polisi'n golygu y bydd y Gymdeithas yn sefydlu gwiriadau, mesurau rheoli a gweithdrefnau i ragweld ac atal gwyngalchu arian. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys dilysu pwy yw cwsmeriaid a tharddiad yr arian a ddefnyddiwyd i brynu neu rentu eiddo.

Er ein bod yn sicr y bydd preswylwyr yn deall dymuniad y Gymdeithas i atal gwyngalchui arian, efallai eich bod yn meddwl ein bod yn busnesa drwy holi lle cawsoch eich arian. Rydym yn ymwybodol o'r senstifrwydd yma ac mae'n debyg mai dim ond pan fo cwsmer eisiau talu'n defnyddio swm mawr o arian y byddwn yn gofyn cwestiynau.

Os yw'r Gymdeithas yn bryderus am ffynhonnell yr arian, adroddir hyn i'r Heddlu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am wyngalchu arian, cysylltwch â Charles Brotherton, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar 0300 111 3030.

0300 111 3030

Dyma'ch atgoffa i ddefnyddio'r rhif ffôn uchod pan fyddwch yn cysylltu â ni!

Rhai o fanteision defnyddio'r rhif yma yw:

- Mae costau'r galwad yn isel, hyd yn oed o ffonau symudol
- Un rhif, rhwydd ei gofio i gael mynediad i'n holl wasanaethau
- Medrir ymddiried mewn rhifau 0300

Rhifau ffôn defnyddiol

Nwy Prydain	0800 0480202
Swalec	0800 343436
Scottish Power	0800 503050
Npower	0845 7145146

Os nad ydych yn gwybod pwy yw'ch cyflenwr ffoniwch

Nwy	0870 6081524
Trydan	0845 6015972

Cyngor Ar Bopeth (CAB)

Aberystwyth	01970 612817
Aberteifi	01239 613707
Sir Faesyfed	01597 822000
neu	0845 6018421
Sir Drefaldwyn	01686 624390
neu	0845 6018421

Phoenix Furniture – Cyflenwr dodrefn cost-isel	01686 623336
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS)	02920 237303
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	0845 0105500

Swyddfeydd Cyngor Sir Powys

Llanfyllin	01691 648381
Y Drenewydd	01686 617522
Y Trallwng	01938 552828
Llandrindod	01597 826000
Aberhonddu	01874 624141

Gwybodaeth ar Fudd-dal Tai a'r Dreth Gyngor	0845 0581879

Swyddfeydd Cyngor Sir Cerredigion

Aberaeron	01545 570881
Aberystwyth	01970 617911

Gwybodaeth ar Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor	01970 633252

Canolfan Byd Gwaith – Ymholiadau Budd-dal Anallu, Lwfans Cynhaliaeth Incwm

Ar gyfer hawliadau newydd	0845 6013614
Y Drenewydd	01686 863100
Llandrindod	01597 753100
Machynlleth	01654 543800
Y Trallwng	01938 525200

Shelter Cymru – I gael cymorth gyda materion tai yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a digartrefedd	0845 0755005

Cyllid y Wlad Crredyd Plant/ Treth Gweithio	0845 3003900

Budd-dal Plant	0845 3021444

Atgyfeiriadau Argyfwng 0300 111 3030